



UK COLLABORATIVE
CENTRE FOR
HOUSING EVIDENCE



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Dod ag iechyd da adref

Beth sy'n creu partneriaeth dda rhwng
tai, iechyd a gofal cymdeithasol?



Rhagair

Mae'r angen am ryngweithio gwell rhwng ieched, tai a gofal cymdeithasol wedi bod yn nodwedd gyson trafodaethau o fewn y sector tai ers dros ddeng mlynedd a mwy. Mae'n anodd meintoli'n llawn beth fyddai'r arbedion petai'r sectorau'n gweithio ar y cyd ond yn ôl adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tai Cymunedol Cymru a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu, "Mae tai o safon wael yn costio mwy na £95m y flwyddyn mewn costau triniaeth i'r GIG yng Nghymru - ond gallai camau i liniaru tai gwael gweld adenillion ar y buddsoddiad o fewn chwe blynedd... mae tai gwael yn costio dros £1bn y flwyddyn i gymdeithas Cymru."

Mae'r adroddiad hwn yn pennu sut y gallwn greu partneriaethau gwaith gwell rhwng y sectorau tai, ieched a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar brofiad o fentrau cymdeithasol ledled Cymru.

Pan fydd unigolion a sefydliadau'n gweithio ar y cyd mewn ffordd sy'n cyfuno adnoddau mae'n caniatáu arbedion sylweddol mewn cyllidebau, amser staff ac effeithlonrwydd. Mae gwaith partneriaeth yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu siapio o gwmpas yr unigolyn yn hytrach na'u bod yn cael eu dylunio i ffitio'r system. Mae gweithio ar y cyd hefyd yn annog creadigrwydd ar draws pob sector, yn cynhyrchu symudiadau cadarnhaol mewn diwylliannau sefydliadol a chanlyniadau gwell ar gyfer unigolion a chymunedau. Bydd ymwreiddio'r dulliau gweithio hyn yn arwain at ganlyniadau gwell oherwydd partneriaethau o ansawdd gwell rhwng ieched, tai a gofal cymdeithasol.


Rydym wedi adnabod chwe egwyddor sy'n annog cydweithio rhwng ieched, tai a gofal cymdeithasol. Dewiswyd y rhain fel y cynhwysion a alluogodd gydweithio effeithiol yn sgil cyfweiliadau manwl â staff mewn prosiectau ynglŷn â sut y maent wedi llwyddo i ddatblygu partneriaethau gwaith ffyniannus ar draws sectorau. Byddai ymwreiddio'r egwyddorion hyn mewn partneriaethau'n sicrhau prosiectau llwyddiannus a chynaliadwy yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig.

Cydnabyddiaeth

Llawer o ddiolch i'r holl unigolion a roddodd o'u hamser i rannu eu profiadau a'u myfyrdodau ar sut mae partneriaethau da'n gweithio. Hefyd i Ganolfan Gydweithio Tystiolaeth Tai y Deyrnas Unedig am eu cyllid a'u cefnogaeth.

Catherine May,
Rheolwr Tyfu Tai Cymru

<https://www.itv.com/news/wales/2019-06-20/warning-poor-housing-costs-welsh-nhs-95m-every-year/>



Cyflwyniad

Mae Tyfu Tai Cymru (TTC) yn brosiect polisi tai 5 mlynedd sy'n canolbwyntio ar ddarparu dadansoddiadau a llenwi bylchau mewn tystiolaeth i gefnogi cynnydd polisiâu tai yng Nghymru. Mae'r prosiect, a ariennir gan Sefydliad Oak, yn cael ei reoli gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru. Mae TTC yn gweithio ar draws tri edefyn allweddol:


- Adeiladu'r cartrefi iawn i fodloni galw
- Sicrhau bod tai bob amser yn flaenoriaeth ar gyfer llywodraeth leol
- Dangos rôl tai wrth gadw pobl yn iawn ac yn iach

Mae'r prosiect Tyfu Tai Cymru wedi dod ynghyd mewn partneriaeth â Chanolfan Gydweithio Tystiolaeth Tai y Deyrnas Unedig (CaCHE) i ddod o hyd i enghreifftiau o wasanaethau a ddyluniwyd ac a gyflwynwyd ar y cyd rhwng iechyd, tai a gofal cymdeithasol. Rhan ganolog o CaCHE yw'r hybiau Cyfnewid Gwybodaeth (CG) sy'n dod ag academyddion, defnyddwyr ymchwil, grwpiau a chymunedau ehangach ynghyd i gyfnewid syniadau, tystiolaeth ac arbenigedd. Yn 2018, gan ddilyn ymarferion blaenoriaethu ym mhob un o'r Hybiau CG, gan gynnwys yr un a fu'n cynnwys budd-ddeiliaid o bob cwr o Gymru, cytunodd CaCHE i ganolbwyntio ar ddeg maes â blaenoriaeth, y mae un ohonynt yn ymwneud â rhyngweithio rhwng tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Cydnabyddwn nad yw unrhyw ran o hyn yn fawr o gamp. Mae pobl, sefydliadau a chymunedau wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ers tro byd i ddod â buddion i fywydau pobl. Mae llawer o'r bobl sy'n gweithio mewn tai, iechyd a gofal cymdeithasol yn deall pam mae angen iddynt weithio ar y cyd i sicrhau bod cartrefi'n cefnogi iechyd da, ac y gall pobl gyrchu gofal iechyd a chefnogaeth gymdeithasol dda ni waeth ble maent yn byw (gan gynnwys pobl ddigartref).

Er y gellir cymhwyso ein hegwyddorion yn gyffredinol i waith partneriaeth, dangosodd yr enghreifftiau hyn fod dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol yn hollbwysig, ac o'r pwysau gwahanol mewn lleoliadau ochr yn ochr â sefydliadau, diwylliannau, daearyddiaeth. Er hynny, rydym yn credu y gall, ac y dylai'r chwe egwyddor yn yr adroddiad hwn deithio.

<https://housingevidence.ac.uk/ken-gibb-new-research-priorities-the-uk-collaborative-centre-for-housing-evidence/>



Methodoleg

Siaradom â phymtheg o brosiectau a ddarparodd y dystiolaeth ar gyfer yr egwyddorion a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae'r prosiect yn cyflwyno amrywiaeth o wasanaethau sy'n lleddfu'r pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol trwy weithio gyda phobl i wella'u hamgylchiadau iechyd a thai. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n gweithio i osgoi arosiadau hir yn yr ysbyty, darparu gofal gartref neu o fewn yr ardal a'r rhai sy'n cynnig eiriolaeth a chynghor i gleifion a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd. Edrychom hefyd ar rôl cydweithio'n ffurfiol ac anffurfiol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol sy'n dod â strwythur, cefnogaeth a chredadwyedd i ddulliau gweithio.

Ymwelom â phrosiectau ledled Cymru ble mae pobl wedi dod ynghyd i gefnogi unigolion i aros yn eu cartrefi eu hunain, isafu arosiadau yn yr ysbyty a chael mynediad gwell i gefnogaeth tai arbenigol. Trwy siarad â darparwyr gwasanaeth fe ddatblygom ddealltwriaeth o'r hyn a'u gwnaeth yn llwyddiannus a sut y gallwn adeiladu model cenedlaethol ar gyfer cydweithio llwyddiannus rhwng y sectorau hyn. Yn awr bydd yr wybodaeth ac arfer da hyn yn gallu cyfeirio datblygu strwythurau cyflwyno gwasanaeth a meithrin amgylchedd sy'n frwd dros gydweithio, wedi'i ategu gan dystiolaeth a gwybodaeth o safon.


Cyfarfûm â phrosiectau yr oeddent wedi cael eu hadnabod yng Nghompendiwm Arfer Da Sefydliad Tai Siartredig Cymru ynghyd â phrosiectau sefydledig eraill, gan gynnwys y rhai a gyllidwyd trwy Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru. Nid oeddem yn gallu siarad â'r holl brosiectau sy'n defnyddio'r dull hwn o weithio, ac felly ni allwn honni mai darlun cyflawn yw hwn o bob achos o gydweithio rhwng tai, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er hynny, gellir trosglwyddo'r egwyddorion a amlinellir yma rhwng y mwyafrif o bartneriaethau.

Dewiswyd yr astudiaethau achos yng nghefn yr adroddiad hwn i adlewyrchu'r amrywiad o ran maint a math y partneriaethau.

Roedd y prosiectau y siaradom â hwy yn ymgymryd ag wyth model cyflwyno gwahanol; hybiau iechyd a thai ar y cyd, presgripsiynau cymdeithasol (e.e. ymarfer corff, gweithgareddau grŵp), swyddogion cefnogi, gwaith atal a dargedir, dod â phobl i mewn i ofal iechyd lleol, rhyddhau o'r ysbyty, strwythurau mantell, a gwasanaethau iechyd y gall pobl eu cyrchu'n hwylus. Dyma rai enghreifftiau'n unig o sut mae pobl yn gweithio mewn partneriaeth rhwng y tri sector ar draws Cymru

www.cih.cymru

<https://gov.wales/innovative-housing-programme>



1. Dadansoddiad a rennir o broblemau ac atebion

Deilliodd yr holl brosiectau y cyfarfûm â hwy o drafodaethau rhwng unigolion o sefydliadau sy'n gweithio ym meysydd tai, iechyd a gofal cymdeithasol ynglŷn â'r materion yr oeddent yn eu taclo yn eu gwaith a beth yr oedd angen ei wneud yn eu tyb hwy. Roedd ganddynt ddealltwriaeth ar y cyd o'r angen am ddatrysiad cynaliadwy a hir dymor, ac nad oedd modd i wasanaethau beri i hynny ddigwydd ar eu pennau eu hunain.

Dangosodd y prosiectau y siaradom â hwy sut yr oeddent wedi llwyddo i weithio ar y cyd a rhannu syniadau, cyllidebau a gweithgareddau a olygodd fod eu gwasanaethau'n gallu ymateb mewn ffordd sy'n gweddu i amgylchiadau'r cymunedau y maent yn cydweithio â nhw.

Mae agweddau pobl yn bwysig, sef credu yn y prosiect a'r gwahaniaeth y bydd yn ei wneud. Amlygodd nifer o bobl bwysigrwydd sgysiau sy'n dechrau gyda "beth allwn ni wneud?" yn hytrach na "faint fydd hwn yn costio?" Rhan hollbwysig o'r dadansoddiad hwn yw barn y rhai sydd â'r profiad mwyaf uniongyrchol - gan symud i ffordd o'r model "rho hwn iddyn nhw" o gyflwyno gwasanaethau.


Gall cyrraedd dadansoddiad a rennir fod yn heriol oherwydd y bydd gan sefydliadau gwahanol agendâu cyferbyniol a all newid dros amser. Mae angen dychwelyd at y dadansoddiad a gweledigaeth hon ar sail reolaidd. Mae'n bwysig bod pawb yn parchu blaenoriaethau ei gilydd a'r gwaith y mae pob partner eisoes yn ymgymryd ag ef yn y maes hwn.

Ystyriaethau Allweddol:

Os bydd staff o sefydliad partner yn gadael, gwnewch yn siŵr bod staff newydd wedi ymgynefino'n llawn â'r dadansoddiad a'r weledigaeth.

Gall fod yn ddefnyddiol ystyried sut a pham y gallai partneriaeth ddod i ben hefyd wrth i amcanion gael eu cyflawni a phrosiectau symud ymlaen.

Myfyriodd nifer o brosiectau ar y ffaith nad oedd ganddynt bawb yr oedd eu hangen o gwmpas y bwrdd o'r cychwyn cyntaf, a bod hyn wedi effeithio ar ymrwymiad rhai sefydliadau ac unigolion.



2. Ffocws ar yr unigolyn

Nododd pob prosiect bwysigrwydd cynnwys cymunedau, yr angen am ddylunio gwasanaethau ar sail y ddealltwriaeth o'r hyn sydd gan bobl a pha anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Mae'r dull hwn yn golygu dechrau gyda'r unigolyn a gwrando ar eu profiadau o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio. Gall hyn olygu rhai newidiadau radicalaidd i sut a phryd rydym yn cyflwyno gwasanaethau ond ar adegau mae'r symudiad yn fach. Un enghraifft yw prosiect rhyddhau o'r ysbyty, pan fydd unigolyn gyda gwybodaeth gref am dai'n gweithio o fewn yr ysbyty, gan weithredu fel "yr un sy'n gwybod" i staff a chleifion fynd iddynt er mwyn sicrhau bod gan bobl rywle diogel ac addas i fynd. Wedyn gall y swyddog tai gydlyn â gwasanaethau eraill fel therapyddion galwedigaethol a chyrchu cyllidebau ar gyfer addasiadau



Enghraifft bellach o hyn yw prosiectau presgripsiynau cymdeithasol, fel y rhai sydd â staff a leolir mewn gofal sylfaenol a all gyfeirio a chefnogi'r bobl hynny sydd â chyflyrau cronig hir dymor, gan gynnig opsiynau sy'n cydweddu â thriniaeth feddygol ac a all leihau dibyniaeth ar wasanaethau'r GIG yn y pen draw.

Cydnabuodd prosiectau eraill ei fod yn anodd i rai prosiectau gyrchu'r amrywiaeth o wasanaethau a goresgyn disgwyliadau isel pobl o wasanaethau. Mae rhai prosiectau wedi cael eu sefydlu gyda'r dymuniad i gael "pawb yn yr ystafell" (gan gynnwys ystod o ymarferwyr ieuchyd, gweithwyr cymdeithasol a staff o Ganolfannau Byd Gwaith i roi cyngor ar fudd-daliadau). Mae hyn yn cydnabod y cyfle i ddechrau ym mhle y mae'r bobl, ac adeiladu eu ffydd i ddechrau cyrchu gwasanaethau eu hunain yn y pen draw.

Ystyriaethau Allweddol:

Meddyliwch am bwy sydd o gwmpas y bwrdd yn y bartneriaeth a phwy sy ddim

Mae adborth rheolaidd gan gyfranogwyr mewn prosiectau'n datblygu dealltwriaeth o beth sy'n mynd yn dda a beth sydd angen ei wella.



3. Arweinyddiaeth

Yn ogystal â chydabod cryfder creadigol grŵp o unigolion sydd o'r un feddylfryd yn gweithio ar y cyd, amlygodd pobl bwysigrwydd arweinydd sy'n fodlon cymryd risgiau i gyrru gwelliannau trwodd. Arweiniwyd rhai o'r prosiectau y cyfarfûm â nhw gan staff uwch ond mae enghreifftiau o unigolion mewn swyddi llai sy'n cynnal y momentwm hefyd.


Gan fyfrio ar yr hyn y dywedodd y prosiectau llwyddiannus hynny wrthym, mae ymrwymiad staff uwch yn hollbwysig hefyd o ran sicrhau llwyddiant hir dymor y prosiect.

Yn aml mae arweinydd cryf yn allweddol i brosiect llwyddiannus, ond ni ddylai effeithiolrwydd hir dymor fod mor ddibynnol ar un unigolyn er mwyn i'r prosiect lwyddo, felly mae'n fuddiol annog staff i ddatblygu yn eu rolau er mwyn datblygu rhai o'r rhinweddau isod.

Rhestrwyd rhinweddau'r arweinydd fel

- Dymuniad i herio'r gwasanaethau sy'n methu â gwella bywydau pobl
- Dymuniad i ddysgu am beth sy'n gweithio o bob ffynhonnell
- Parodrwydd i gymryd risgiau yn ystod y daith
- Gallu i adnabod beth sy'n gweithio, a phwy all arwain yn eu meysydd eu hunain
- Deall bod arferion fel cydymffurfio ac apathi'n atal pobl a thimau rhag creu newid

Mewn nifer o bartneriaethau, ffactor ychwanegol a brofodd i fod yn benderfynol oedd pan rôl alluogi a sefydlir gan y gymdeithas tai, gan symbylu rheolaeth y prosiect a phennu'r amserlen sydd i'w dilyn wedyn gan yr asiantaethau statudol.



Ystyriaethau Allweddol:

Mae angen i ni ystyried sut rydym yn datblygu amgylcheddau sy'n meithrin sgiliau arweinyddiaeth, fel y gall pobl ffynnu a theimlo y gallant ymgymryd â rhinweddau arweinyddiaeth.

Mae'n bwysig cydnabod bod trosiant ac athreulio'n rhan arferol o gylchoedd bywyd prosiectau a dylid cynllunio ar gyfer olyniaeth yn rheolaidd.



4. Cyllidebau ar y cyd

Myfyriodd pob partneriaeth ar yr angen am adnoddau a chyllid i gyflwyno'r gwaith. Roedd gan lawer o'r partneriaethau yr oeddem wedi cwrdd â hwy un partner sy'n darparu cyfran uwch o'r adnoddau.

Mantais cyfraniad ariannol gan bob partner yw'r arwyddocâd y mae hyn yn ei gyfrannu at uchelgais y prosiect gan y bydd angen i bob sefydliad ddangos defnydd da o adnoddau.

Mewn llawer o bartneriaethau ni fyddai'n bosib gwneud cyfraniadau ariannol cyfartal ond gallai fod dulliau eraill o ddarparu adnoddau. Gallai hwn fod ar ffurf amser staff neu cytundebau hwyluso gyda phartneriaid.


Dywedodd nifer o brosiectau wrthym eu bod wedi rhoi cynigion ar y cyd am gyllid at ei gilydd, nododd y prosiectau a oedd wedi gwneud hyn ei fod yn broses sy'n cymryd amser ac yn peri rhwystredigaeth oherwydd yr angen am ymdrin â biwrocratiaeth mewn nifer o sefydliadau. Er hynny, siaradodd y prosiectau hynny yr oeddent wedi llwyddo i gyrchu cyllid trwy gynigion ar y cyd am fanteision cael eu gorfodi i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth cyn medru cyrchu'r cyllid.

Enghraifft o gyllid ar y cyd posib yw Cronfa Gofal Integredig (CGI)³ Llywodraeth Cymru, fodd bynnag gan fod angen cyrchu CGI trwy'r Bwrdd Iechyd mae'n rhaid dibynnu ar allu staff y Bwrdd Iechyd i flaenoriaethu'r broses ymgeisio dros ofynion eraill.

Ystyriaethau Allweddol:

Bydd datblygu gweledigaeth a strategaeth ar y cyd ar gyfer y gwaith yn helpu arwain gofynion cyllidebol y prosiect. Ystyriwch sut i ddefnyddio adnoddau a ddelir gan bartneriaid i sicrhau ymdeimlad o berchnogaeth a rennir.

³ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/integrated-care-fund-revenue-capital-and-dementia-guidance-april-2019.pdf>



5. Dehongliad a rennir o'r ddeddfwriaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlinellu rolau Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol (BPRh) sydd wedi'u ffurfio o gynrychiolwyr o feysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaethau eraill i sicrhau gwasanaethau integredig yng Nghymru.


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hybu egwyddorion atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad hir dymor i helpu cyrff cyhoeddus i ymgymryd â chynllunio gwell er budd ein poblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r BPRh yn ffordd hynod dda o gael pawb o gwmpas y bwrdd, a gallai'r strwythur mwy ffurfiol annog yr holl sefydliadau allweddol i weithio ar y cyd i ddarparu gwasanaeth cyfannol.

Roedd rhai o'r prosiectau y cyfarfûm â hwy wedi defnyddio'r ddeddfwriaeth mewn ffyrdd eraill hefyd i oresgyn rhwystrau yn y system, gan sicrhau y defnyddir y dehongliad i greu partneriaethau a'u gwneud yn gadarn.

Yn gymaint ag y mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu creadigrwydd, meithrin a menter mae angen hefyd i ni herio'r diwylliant a yrrir gan dargedau a all olygu ticio blychau dros y tymor byr yn hytrach na chyflwyno gwasanaethau sy'n gweithio dros bobl ar yr amser ac yn y lle y mae eu hangen nhw.

Ystyriaethau Allweddol:

I gryfhau partneriaethau, gallwn ddefnyddio'r ddeddfwriaeth i annog pobl i weithio ar y cyd. Mae'r cyfle i roi adborth i'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn annog staff i weld eu gwaith fel rhan o'r darlun cenedlaethol yng Nghymru.



6. Cydnabod anghydbwysedd pŵer

Ar gyfer partneriaethau llwyddiannus, mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaethau mewn pwerau hyd yn oed os mai trafodaeth newydd rhwng partneriaid yw hon. Yn aml, mae'r gwahaniaeth o ran maint, cyllideb neu gredadwyedd un partner yn golygu awgrymiad anysgrifenedig o'r awdurdod a ddelir gan y partner hwnnw.


Gall fod yn ddefnyddiol cael trefniadau ffurfiol i daclo'r anghydbwysedd pŵer, fel bwrdd rheoli ar y cyd gyda chyfarfodydd rheolaidd. Dywedodd prosiectau wrthym hefyd fod partneriaethau'n elwa o gydnabod y daw pob unigolyn â chryfderau fel profiad, cysylltiadau â chymunedau neu frwdfrydedd at y prosiect. Gan y disgwylir y bydd rhai sefydliadau (fel Awdurdodau Lleol) yn mynd yn rhan o nifer o bartneriaethau, mae'n bwysig amlygu lefel yr ymdrech a disgwylir gan y rhai sy'n eistedd o gwmpas y bwrdd hefyd.

Gall anghydbwyseddau pŵer ddod i'r amlwg hefyd trwy'r defnydd o jargon neu derminoleg i eithrio pobl (er enghraifft mae 'lles', 'cysylltwyr cymunedol' yn golygu rhywbeth gwahanol i bobl wahanol). Gwnewch yn siŵr nad yw pobl yn cael eu heithrio o sgysiau oherwydd eich iaith.

Ystyriaethau Allweddol:

Gall fod yn ddefnyddiol cynnwys hwylusydd profiadol ar gyfer y trafodaethau hyn

Wrth i unigolion symud ymlaen neu os bydd y dyraniad adnoddau'n newid, dylid dychwelyd at y drafodaeth am sut mae'r bartneriaeth yn gweithio.



Gweithgareddau sy'n ymwreiddio gweithio ar y cyd

Cynnal hyfforddiant ar y cyd ar gyfer staff Cymdeithasau Tai, Awdurdodau Lleol, Meddygon Teulu, Ymwelwyr Iechyd, Gweithwyr Cymdeithasol a Byrddau Iechyd

Annog gweithio ar y cyd ar draws holl lefelau sefydliadau

Herio gweithio mewn seilo pan fyddwn yn gweld hynny

Meithrin arweinyddiaeth a chydabod y gallu i unigolion ddatblygu'r rhinweddau

Cyllid mwy cynaliadwy dros gyfnod hwy ar gyfer prosiectau


Cydnabod grym ataliol partneriaethau rhwng iechyd, tai a gofal cymdeithasol

Mae angen cyflwyno gwasanaethau i bobl yn y fan a'r lle, gan gydnabod bod dod o hyd i'ch ffordd trwy'r system gyfredol yn peri trafferth i lawer o bobl

Mae cael cyllidebau ac adnoddau ar y cyd yn ffurfioli strategaeth o ran sut y bydd partneriaethau'n cyflwyno newid go iawn sy'n gweld pawb â buddiant yn ei lwyddiant.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi disgrifio chwe chydran mewn partneriaethau llwyddiannus rhwng tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Trwy ymwreiddio'r egwyddorion hyn, mae prosiectau ar draws Cymru wedi dangos y potensial am wasanaethau sy'n cyflwyno'n wirioneddol mewn ffordd sy'n sicrhau y gall mwy o bobl brofi gwasanaethau tai, iechyd a gwasanaethau gofal di-dor. Oherwydd cyffredinolrwydd yr egwyddorion hyn, gallant gael eu cymhwyso'n ehangach y tu hwnt i Gymru a chefnogi gwaith partneriaeth ar draws y Deyrnas Unedig



Y prosiectau y cyfarfûm â hwy

Mudiad 2025

Mae Mudiad 2025 yn bartneriaeth seiliedig ar le yng Ngogledd Cymru sydd â'r genhadaeth o ddod ag anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi yn y rhanbarth i ben erbyn 2025. Fe'i ffurfiwyd yn 2015 wrth ymateb i ffigyrau a ddangosodd fod pobl mewn ardaloedd o amddifadedd uwch yng Ngogledd Cymru yn debygol o fyw 11 mlynedd yn llai na phobl mewn ardaloedd eraill. Mae wedi'i ffurfio o uwch arweinwyr ac ymarferwyr o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaethau Tân a Heddlu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Ers lansio yn 2015 mae ei aelodaeth wedi tyfu i dros 500 o bobl a sefydliadau, y maent oll wedi dod ynghyd i oruchwyllo prosiectau sy'n gweithio ar:

- Gartrefi Iach - Pobl Iach - i daclo tlodi yn ni, yn enwedig yn y sector rhentu preifat
- Taclo Anghydraddoldebau Iechyd Pobl Ddigartref sy'n Cysgu Allan
- Adfywio Sir y Fflint (gan ganolbwyntio ar anweithgarwch corfforol pobl ifanc a thlodi bwyd)
- Iechyd Meddwl a Chadw Pob Peth
- Hwyluso Gwelliannau wrth Ryddhau o'r Ysbyty
- Rhwydwaith Presgripsiynau Cymdeithasol 'Made in North Wales'
- Rhaglen Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus

<https://2025movement.org/>


Heol Brynteg

Cymdeithas Tai Unedig Cymru gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae Heol Brynteg yn cefnogi cleifion wrth bontio o fyw mewn lleoliad ward ysbyty seiciatrig fforensig tymor hir yn ôl i fyw yn y gymuned. Mae hyn yn helpu nhw i ddatblygu sgiliau bywyd a symud tuag at fyw'n annibynnol ac yn gydnerth, ac ar yr un pryd mae'n rhyddhau gwelyau ar wardiau ar gyfer y rhai sydd mewn angen ac yn creu arbedion cost sylweddol i'r bwrdd iechyd.

Sefydlwyd Heol Brynteg fel rhan o'r fenter Mewn Un Lle - prosiect ar y cyd rhwng BIPAB, wyth cymdeithas tai ac awdurdodau lleol Gwent sy'n ceisio datblygu a darparu llety a gofal ar gyfer pobl sydd ag Anghenion Iechyd Parhaus (AIP) mewn lleoliadau ward nad ydynt yn addas iddynt mwyach.

<https://www.unitedwelsh.com/>



Cylch Caron

Mae Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron yn dod ag amrywiaeth o wasanaethau ynghyd mewn un canolbwynt ar gyfer Tregaron a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae'r prosiect Cylch Caron yn adeiladu ar gydnerthedd ac ymroddiad sydd eisoes yn bodoli i ofalu am bobl yng nghymuned Cylch Caron.

Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd yn cynnwys meddygfa, fferyllfa gymunedol, clinigau cleifion allanol a chyfleusterau nyrsio cymunedol a gofal cymdeithasol, yn ogystal â fflatiau gofal ychwanegol ac unedau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

<https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/partnerships/ceredigion-public-services-board/cylch-caron/>

Closer to Home, Cymdeithas Tai First Choice

Fe'i dechreuwyd yn 2011 gyda ffocws ar isafu lleoliadau y tu allan i'r sir ac y tu allan i'r wlad trwy'r model o ddarparu 'tŷ cyffredin mewn stryd gyffredin' a thrwy gytundeb rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, cyngorau lleol a phum darparwr cefnogaeth. Y nod yw gwella bywydau tenantiaid sydd ag anghenion iechyd cymhleth a'u teuluoedd trwy ddarparu llety wedi'i deilwra o safon sy'n galluogi tenantiaid i fod yn annibynnol, gyflawni eu potensial ac uchafu eu mwynhad mewn bywyd.


<http://www.fcha.org.uk/>

Community Care Collaborative (CCC)

Bu i CCC ddatblygu a pheilotu'r model 'Pawb yn yr Ystafell' trwy brosiect Hyb Gofal Cymunedol Wrecsam. Mae'r Hyb Gofal Cymunedol yn dod ag asiantaethau fel gwasanaethau meddyg teulu, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, AGP, gwasanaethau tai a digartrefedd ynghyd ar draws pob sector o'r gymuned, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau sydd eisoes yn bodoli, arfer da ac asedau cymunedol.

Trwy weithio ar y cyd, mae CCC yn darparu dull cydlynol, cyfannol ac effeithlon o ran adnoddau o gefnogi a gofalu am bobl sy'n ddigartref ac yn cysgu allan yn Wrecsam.

<https://ccc-wales.org/>



Erw Groes, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn

Mae Canolfan Deuluoedd Erw Groes yn brosiect o un ar ddeg o fflatiau yng Nghaergybi sy'n darparu llety tymor byr/brys o safon i deuluoedd digartref. Gall y Ganolfan ddarparu cartref i deuluoedd agored i niwed mewn un o'i fflatiau hunangynhwysol â set lawn o ddodrefn sy'n cynnwys cegin, lolfâ, ystafelloedd gwely ac ystafell ymolchi. Gall teuluoedd aros yn Erw Groes am hyd at ddwy flynedd, gan roi sefydlogrwydd iddynt ac amser i ddatblygu annibyniaeth a fydd yn helpu nhw i symud ymlaen i gartref mwy parhaol.

Mae'r ganolfan deuluoedd yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol i ddod â gwasanaethau i'r teuluoedd sy'n aros yn y ganolfan, gan gydnabod yr angen am gydweithio â phobl yn y fan a'r lle.

www.clwydalyn.co.uk/mother-and-baby-and-family-centres/

Anogaeth Gymdogaeth yr Hafod

Yn 2018 dechreuodd cymdeithasau tai'r Hafod beilota dull newydd o gyflwyno gwasanaethau rheng flaen, a ysbrydolir gan y modelau cymdogaeth [Bromford](#) a [Wigan](#).

Mae swyddogion tai'r Hafod yn newid i anogwyr cymdogaeth a byddant yn rheoli llai o eiddo, gan roi cyfle iddynt ddod i adnabod cwsmeriaid a chymunedau'n well.

Rhagwelir y bydd defnyddio dull mwy ataliol yn helpu cynnal tenantiaethau, cynyddu cyfranogiad a galluogi cyfeirio cynharach at wasanaethau eraill, fel gofal a chefnogaeth. Yn yr un modd, pan fydd gan bobl syniadau, diddordebau a nodau ar y cyd, bydd anogwyr yn annog cymunedau i greu cyflyrau y gallant ffynnu ac arloesi ynddynt.

www.hafod.org.uk/neighbourhoodcoaches/

Cartrefi Iach Pobl Iach Gogledd Cymru

Mae CIPIGC, a sefydlwyd i ymdrin â thlodi tanwydd yng Ngogledd Cymru, yn edrych hefyd ar isafu anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi a gwella iechyd a llesiant trigolion, y mae llawer ohonynt yn byw yn y sector rhentu preifat. Mae'r partneriaid yn cynnwys Canolfan Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Cymru Gynnes, Gofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru a Wales and West Utilities.

www.warmwales.org.uk/healthy-homes-healthy-people/





Rhyddhau o'r Ysbyty - Rhan o Fudiad 2025 Gogledd Cymru

Wedi'i sefydlu ym mis Rhagfyr 2016 ac yn gweithio ar draws Conwy a Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Datrysiadau Tai Conwy, Datrysiadau Tai Sir Ddinbych a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych. Mae'n gweithio gyda chleifion yn ward aciwt Ysbyty Glan Clwyd i ymdrin ag unrhyw faterion tai sy'n galluogi rhyddhau'n brydlon o'r ysbyty i gartref neu, pan fydd angen, llety dros dro. Rheolir achosion mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Deddf Tai (Cymru) 2014 ac o fewn arweiniad clir y fenter Cefnogi Pobl.

www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Homelessness/Homelessness.aspx


Gwasanaeth Ysbyty i Gartref, Gofal a Thrwsio Cymru

Mae Gofal a Thrwsio Cymru'n rhan o'r mentrau gwaith ar y cyd a gomisiynwyd rhwng Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol a sefydliadau trydydd sector i gael effaith gadarnhaol wrth helpu pobl i fynd adref (fel rhan o waith ataliol cyn gaeaf 2019/20).

Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio'n gweithio mewn chwech o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol gyda gwasanaethau'n cael eu cyflwyno o un ar ddeg o ysbytai yng Nghymru, ynghyd â'r gwasanaeth presennol yn ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae gweithwyr achos yn gweithio'n uniongyrchol â chleifion a thimau clinigol ar wardiau, gan gael sgysiau cynnar am y gwelliannau sydd eu hangen i gartref claf i'w alluogi i gael ei ryddhau'n ddiogel a mor gyflym â phosib, gyda chefnogaeth gan Swyddogion Technegol a thimau Gwella Cartrefi.

www.careandrepair.org.uk





Prosiect y Goleudy, Cymdeithas Tai Taf

Yn 2010, dechreuodd Prosiect y Goleudy gydweithio â Thîm Rhyddhau Ysbyty Brenhinol Gwent i sefydlu gwasanaeth i helpu cleifion â phroblemau gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty a achosodd oedi wrth ryddhau nhw'n ddiogel o'r ysbyty. Gall y problemau amrywio o fygythiad o ddigartrefedd, budd-daliadau nad ydynt wedi'u trefnu eto neu gartref presennol sy'n anaddas neu'n annrhigiadwy.

Mae un o'r Gweithwyr Cefnogi Prosiect y Goleudy bellach wedi'i leoli'n barhaol o fewn y Tîm Rhyddhau o'r Ysbyty. Maent yn cydweithio'n agos â'r claf, staff meddygol, y teulu a gwasanaethau gwirfoddol neu statudol allweddol eraill er mwyn gostwng 'rhwystro gwelyau'.


www.taffhousing.co.uk/lighthouse-project/

Prosiect Presgripsiynau Cymdeithasol "Made in North Wales"

Partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Prifysgol Glyndwr, y chwech awdurdod lleol a sefydliadau trydydd sector er mwyn darparu cydlynid i raglenni presgripsiynau cymdeithasol yng Ngogledd Cymru trwy:

- Darparu swyddogaeth gydlynu ar gyfer y rhanbarth cyfan, gan gwmpasu hyd at ugain o fentrau gwahanol.
- Creu "Cymuned o Arfer" fel y gall ymarferwyr ar draws y rhanbarth rannu arfer gorau, adnabod cyfleoedd addysg a hyfforddiant, a dylanwadu ar yr agenda ymchwil a gwerthuso
- Cymryd rhan mewn WISPR (Sefydliad Ymchwil Presgripsiynau Cymdeithasol Cymru)
- Comisiynu rhaglenni presgripsiynau cymdeithasol ychwanegol i lenwi bylchau a nodir

www.bcugetinvolved.wales/well-north-wales





Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion

Mae Porth Gofal yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a sefydliadau trydydd sector i gefnogi pobl i dderbyn gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys Swyddogion Cefnogi Atal ochr yn ochr ag Uwch Weithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd, Nyrsys Ardal, cysylltiadau â'r trydydd sector a mewnbwn penodedig gan Wasanaethau Teuluoedd a Phlant.

Mae'r tîm integredig o weithwyr proffesiynol yn ystyried pob cyfeiriad newydd a ddaw trwodd yn agos er mwyn sicrhau'r ymateb mwyaf priodol. Wedyn, trafodir cefnogaeth benodedig gyda'r unigolion a gaiff ei rhoi ar waith i gefnogi ei lles.


Mae ffocws yr asesiadau'n symud o adnabod problemau a chynhyrchu galw tuag at hybu annibyniaeth trigolion.

www.ceredigion.gov.uk/resident/social-care-wellbeing/the-wellbeing-and-care-pathway/porth-gofal/

Sunnyside Wellness Village, Cymdeithas Tai Linc

Mae Sunnyside Wellness Village yn brosiect ar y cyd rhwng Cymdeithas Tai Linc-Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Bydd y datblygiad yn cynnwys 70 o anheddau, neuadd pentref a chanolfan gofal iechyd a fydd yn gartref i amrywiaeth o wasanaethau iechyd, gan gynnwys deintydd, fferyllfa gymunedol ac optometrydd. Mae'r safle ar ymyl orllewinol Pen-y-bont ar Ogwr mewn swyddfeydd a ddaliwyd yn flaenorol gan y cyngor a Llys Ynadon.

<https://www.linc-cymru.co.uk/>





Wellbeing 4U, Cymdeithas Tai Unedig Cymru

Mae Wellbeing 4U yn wasanaeth presgripsiynau cymdeithasol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg a redir gan Gymdeithas Tai Unedig Cymru mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


Mae'r tîm Wellbeing 4U yn cefnogi pobl gyda:

- Llesiant cyffredinol, gan gynnwys iechyd corfforol fel bwyta'n iach ac ymarfer corff, a materion cymdeithasol fel tai, dyled a budd-daliadau
- Cymorth gydag arferion niweidiol fel camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a rhoi'r gorau i ysmegu
- Cefnogaeth imiwneiddio a sgrinio
- Cysylltiadau â gwasanaethau cyngor a chefnogaeth h.y. gwasanaethau ariannol, teulu, gofalwyr

Yn ogystal â chynnig cefnogaeth un i un a chyfeirio, mae'r tîm yn darparu rhaglenni a chysiau iechyd trwy The Healthful Network hefyd.

Gall pobl gael eu cyfeirio at y rhaglen trwy feddyg teulu neu weithwyr gofal iechyd sylfaenol eraill neu gallant gyfeirio eu hunain.

www.unitedwelsh.com/forms/wellbeing-4u/





This image shows a single sheet of white paper with horizontal ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There are no margins, text, or other markings on the paper.





Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cwrdd â'r tîm:



Catherine May

rheolwr Tyfu Tai Cymru, CIH Cymru

E: catherine.may@cih.org T: 02920 741138



Matt Kennedy

rheolwr polisi a materion cyhoeddus, CIH Cymru

E: matthew.kennedy@cih.org T: 02920 741137



Matt Dicks

cyfarwyddwr, CIH Cymru

E: matthew.dicks@cih.org T: 02920 741131



Sharon Dean

cydlynnydd cefnogi cwsmeriaid, CIH Cymru

E: sharon.dean@cih.org T: 02920 741131

Tyfu Tai Cymru -
Gan Fod Tai'n Bwysig